| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Chwefror, 2012** |
| **TEITL** | **Ymateb yr Adran i Adroddiadau Archwilio Mewnol ar Bwll Nofio Bro Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar gefndir y gweithrediad a'r sefyllfa gyfredol.** |
| **AWDUR** | **Awen Morwena Edwards** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd W. Roy Owen** |

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma adrodd beth oedd ymateb yr Adran i'r Adroddiad Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, 2011 ynghyd a'r Memo Dilyniant a gyhoeddwyd ar 29 Medi, 2011 i'r adroddiad gwreiddiol ar Bwll Nofio Bro Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog.

## 2. Cefndir

2.1. Fel rhan o raglen archwilio'r Adran Archwilio Fewnol yn ystod 2010 archwiliwyd pump o ganolfannau hamdden y Sir a dyfarnwyd bod tri ohonynt yn disgyn i gategori 'C' o ran cydymffurfiaeth ac unai rheoliadau ariannol neu weithdrefnau gweithredu'r Cyngor ac roedd Canolfan Bro Ffestiniog yn un o'r canolfannau yn y categori yma.

2.2. Mewn ymateb i'r adroddiadau hynny, fe ddaru'r Adran baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf, 2011 o dan y teitl *'Adrodd ar fwriadau'r Adran i ymateb i archwiliadau mewnol ar ganolfannau hamdden'* yn nodi beth oedd bwriadau'r Adran o ran ymateb i'r sefyllfa a lliniaru'r risgiau adnabuwyd.

## *3.* Cynnydd hyd yma yn erbyn '*Adroddiad ar fwriadau'r Adran i ymateb i archwiliadau mewnol ar ganolfannau hamdden'*

3.1. System Rheolaeth Integredig (pwynt 4.2.1 o'r adroddiad a gyfeirir ato uchod yn 2.2) - Nodwyd diffygion penodol ynglŷn â threfniadau bancio'r canolfannau hamdden. Fel modd o liniaru'r risgiau nodwyd bod angen gwelliannau i'r systemau rheolaethol o ran sicrhau ansawdd a hyfforddiant i staff. Gallwn adrodd y cwblhawyd y gwaith hynny ym mis Tachwedd, 2011.

3.2. Erbyn hyn, mae’r Adran wedi derbyn adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol ym mis Rhagfyr, 2011 ar Threfniadau Bancio Canolfannau Hamdden ac wedi gweithredu ar argymhellion gweithredu’r adroddiad hwnnw yn ogystal.

3.3. Ail Strwythuro Adrannol - mae’r newidiadau strwythurol a gyfeiriwyd ato yn yr adroddiad blaenorol (4.2.2 a 4.2.3) bellach wedi eu cwblhau ac mewn lle. Fodd bynnag, mae’r Cymhorthydd Monitro Ansawdd ar absenoldeb tymor hir o’r gwaith ar sail iechyd ac felly, nid yw’r Adran yn gallu cyflawni’r rôl monitro yn unol ag beth fyddai’r dymuniad ar hyn o bryd. Nid oes arwydd pryd fydd yr aelod staff yn ôl wrth ei gwaith yn anffodus ond mae’r Swyddog Cefnogi Busnes ar gael i ddiweddaru canllawiau gweithredu ac i gynnal hyfforddiant i staff.

**4. Cynnydd yn erbyn Argymhellion Adroddiad Archwiliad Mewnol Canolfan Bro Ffestiniog (Chwefror, 2011)**

4.1. Nodwyd 21 o argymhellion yn yr adroddiad fel y nodir isod. O’r 21 fe ddaru’r Ganolfan weithredu ar 8 ohonynt yn llawn a 12 yn rhannol erbyn mis Medi, 2011 fel y nodwyd yn y Memo Dilyniant yn dilyn yr Archwiliad Dilyniant dyddiedig 29 Medi, 2011. Mae’r memo hwnnw yn cyfeirio at rai ystyriaethau perthnasol ond nodir isod y rhain mewn manylder isod.

4.1.1. Newidiadau Rheolaethol (Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog) - Fe ddaru’r Adran atal Rheolwr y Ganolfan o’i waith ym mis Rhagfyr, 2010 ond ni chwblhawyd y drefn Disgyblu tan fis Medi, 2011. Felly, yn ystod y cyfnod rhwng yr adroddiad archwilio mewnol cyntaf a’r un dilynol nid oedd rheolwr sefydlog mewn lle yn y ganolfan. Erbyn hyn, mae’r sefyllfa yn parhau i fod yn fregus ond mae’r Adran yn edrych i wneud apwyntiad parhaol erbyn diwedd mis Mawrth, 2012 yn dilyn derbyn adroddiad gwerthuso opsiynau rheolaethol.

4.1.2. Soniwyd eisoes am absenoldeb tymor hir un aelod o staff yr Adran sy’n cyflawni’r swydd Cymhorthydd Monitro Ansawdd. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar y gwaith o fonitro a gwella systemau’r ganolfan. Fodd bynnag, drwy ail flaenoriaethu ar sail tymor byr, rydym wedi llwyddo i wella’r sefyllfa ond bydd gwaith yn parhau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a gall hynny ddigwydd yn gynt unwaith bydd yr aelod staff wedi dychwelyd i’w gwaith.

4.2. Y sefyllfa bresennol o safbwynt yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad yw bod y Ganolfan bellach wedi gweithredu yr argymhellion yn eu cyfanrwydd fel y nodir isod yn tabl 1.

Tabl 1:

| Rhif Argymhelliad | Argymhelliad | Statws ar 1 Chwefror, 2012 |
|---|---|---|
| A01 | Dylid sicrhau bod adroddiadau ‘Daily Analysis Report’, ‘Point of Sale Transactions Cancelled’ a ‘Record Refunded’ yn cael eu cynhyrchu a’u gwirio yn unol â’r canllawiau / gweithdrefnau, a bod yr adroddiadau yn cael eu harwyddo a’u dyddio sydd yn cadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A02 | Dylid sicrhau bod adroddiad ad-daliadau yn cael eu cynhyrchu a’i adolygu yn fisol, ac yna ei arwyddo a’i dyddio i gadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A03 | Dylid sicrhau bod y derbynebau ad-daliadau yn cael eu cadw ac yn cael ei llofnodi gan y cwsmer ac aelod o staff ar bob achlysur. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A04 | Dylid sicrhau bod adroddiadau logio mewn ac allan yn cael eu cynhyrchu a’i gwirio yn fisol, ac yna ei arwyddo a’i ddyddio i gadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A05 | Dylai dau swyddog sy’n ymglymedig â’r broses bancio lofnodi’r Ffurflen Cofnodi Bancio a’r llyfrau talu i mewn i’r banc ar bob achlysur i gadarnhau fod y wybodaeth yn gywir. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A06 | Dylai pob ymdrech gael ei wneud gan swyddogion i sicrhau cywirdeb yr arian a gasglwyd â’i gyfeirebu i’r cod cywir yn y cyfriflyfr, fydd yn lleihau’r defnydd o’r cyfrif gwarged / diffyg. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A07 | Dylid sicrhau bod adroddiadau “Point of Sale Transactions” yn cael ei gynhyrchu a’i adolygu yn unol â’r canllawiau / gweithdrefnau, a bod yr adroddiad yn cael ei arwyddo a’i ddyddio i gadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A08 | Dylid sicrhau bod eglurhad digonol yn cael ei gyrru i’r Weinyddwraig Ardal ar bob achlysur lle welir gwahaniaeth o £3.00 neu fwy. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A09 | | |
| A10 | Dylid sicrhau bod trefn gadarn mewn lle i gadw a chwblhau Ceisiadau am Archebu Cyfleusterau. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |

| | | |
|---|---|---|
| A11 | Dylid sicrhau bod trefn briodol ar ddelio gydag anfonebau na thalwyd i'r Ganolfan yn ystod y flwyddyn. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A12 | Dylid sicrhau bod anfonebau yn cael eu codi ar gyfer bob "Cais i Archebu Cyfleusterau". | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A13 | Dylid sicrhau bod gwahaniaeth mewn dyletswyddau wrth archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau fel nad yw un swyddog yn llofnodi'r bylchau gwirio ar y TR252 nag yn ei ardystio i'w dalu. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A14 | Dylid sicrhau bod anfonebau yn cael eu pasio ymlaen yw talu yn brydlon er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A15 | Dylid sicrhau bod ffurflen cymodi arian ar gyfer y peiriant sychu gwallt a'i fod yn cael ei lofnodi gan ddau swyddog ar bob achlysur. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A16 | Dylid sicrhau bod arwydd cadarn yn y dderbynfa yn egluro ni chaniateir tynnu lluniau heb gytundeb y rheolwr o flaen llaw. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A17 | Dylid sicrhau bod posteri clir yn gwahardd camerâu a ffôn sy'n tynnu lluniau yn y dderbynfa, Neuadd Chwaraeon a thoiledau ayyb. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A18 | Mae angen i'r Ganolfan gadw rhestr stoc gyfredol a'i uwchraddio ar bob achlysur pan mae unrhyw newidiadau e.e. pryniant, gwerthiant. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A19 | Dylid sicrhau bod swyddog annibynnol i'r un sydd yn cadw'r cofnodion yn gwirio'r stoc ar y rhestr eiddo yn flynyddol, ac yna yn ei lofnodi a'i ddyddio i gadarnhau bod y cofnod yn gywir. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A20 | Dylid sicrhau bod y rhestr eiddo yn cynnwys rhif 'serial' pob eitem o eiddo lle'n briodol. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A21 | Dylid sicrhau bod y Ganolfan yn marcio pob eitem stoc fel eiddo'r Cyngor. Dylid ystyried wneud hyn drwy ddefnyddio 'selectamark' neu feiro UV. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |
| A22 | Dylid sicrhau bod trefn briodol ar gyfer diogelu allweddau'r Ganolfan a fyddai'n sicrhau bod swyddogion ddim yn cael mynediad i fannau na ddylent. | Wedi ei gwblhau ac mewn lle. |